PRIFYSGOL BANGOR / BANGOR UNIVERSITY

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFONAU'R GYMRAEG

## Awst 2020 – Gorffennaf 2021

# ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFONAU'R GYMRAEG PRIFYSGOL BANGOR

## RHAGYMADRODD

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn ar weithrediad y Safonau Iaith Gymraeg ym Mhrifysgol Bangor yn cyfeirio at y cyfnod rhwng 1 Awst 2020 a 31 Gorffennaf 2021.

Mae'r adroddiad yn amlinellu'r camau y mae'r Brifysgol wedi'u rhoi yn eu lle er mwyn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r Safonau Iaith ac yn tynnu sylw at rai llwyddiannau penodol ac amcanion datblygu ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae copi o Hysbysiad Cydymffurfio Prifysgol Bangor ar ein gwefan.

## BLWYDDYN LAWN O WEITHREDU'R SAFONAU MEWN PANDEMIG

Roedd y cyfnod dan sylw yn un a oedd yn gyfan gwbl dan gysgod pandemig Covid-19. Rhwng Awst 2020 a Gorffennaf 2021, bu cyfnodau clo a chyfnodau o weithio o dan amrywiol gyfyngiadau. Blaenoriaeth y Brifysgol yn ystod y cyfnod hwn oedd sicrhau'r profiad cyfoethocaf posib i fyfyrwyr a diogelwch myfyrwyr a staff. Roedd y Gymraeg yn ystyriaeth o safbwynt y ddwy agwedd hon. Hynny yw, wrth i batrymau addysgu a dysgu newydd a phatrymau gwasanaethau cefnogol newydd gael eu rhoi ar waith, rhoddwyd camau mewn lle i sicrhau bod modd defnyddio'r Gymraeg ac nad oedd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Yn yr un modd, wrth i'r Brifysgol sicrhau bod gwybodaeth a systemau Iechyd, Diogelwch a Lles yn cael eu datblygu, sicrhawyd eu bod ar gael yn ddwyieithog. Mae'r cyfnod adrodd 2020-2021, felly, yn un lle mae'r Brifysgol wedi ymateb yn rhagweithiol i'r heriau oedd yn ei hwynebu yn sgil y pandemig.

Bu'r cyfnod hwn hefyd yn gyfnod o newidiadau mewnol sylweddol i'r Brifysgol. Bu proses ail strwythuro a datblygwyd strategaeth gorfforaethol newydd. Unwaith eto, bu'r Gymraeg yn ystyriaeth yn ystod y ddwy broses honno. Mae ein data yn dangos bod canran y staff sy'n siarad Cymraeg wedi gostwng. Yn 19/20 roedd 45% o staff yn nodi eu bod yn siarad Cymraeg. Yn 20/21 mae 44% o staff yn nodi eu bod yn siarad Cymraeg ac mae'r Brifysgol yn ymwybodol bod angen monitro'r capasiti cyfrwng Cymraeg yn y gweithlu yn dilyn y cyfnod hwn o newid.

## SAFONAU CYFLENWI GWASANAETH

Mae Prifysgol Bangor yn hyderus ei bod wedi perfformio'n dda wrth gydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau. Ers dyddiau ein Cynllun Iaith rydym wedi, er enghraifft, sicrhau bod:

- staff sy'n siarad Cymraeg yn gweithio mewn derbynfeydd;
- holl ystod ein gwasanaethau ar gael i fyfyrwyr yn Gymraeg;
- arwyddion yn ddwyieithog;
- cyfle i fyfyrwyr a phartneriaid ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyflwyno ceisiadau am arian neu wrth dendro i gynnig gwasanaeth.

Y llynedd, fe nodwyd yn ein Adroddiad Blynyddol ein bod yn awyddus i sicrhau bod y Gymraeg yn ganolog i unrhyw ddull newydd o gynnig gwasanaeth wrth i heriau'r cyfnod clo barhau.

Tynnir sylw at y datblygiadau isod:

- Mae'r cyd-destun addysgu a dysgu wedi'i chwyldroi yn ystod y pandemig wrth i ddysgu ar-lein ddod yn elfen ganolog o gyflwyno modiwlau. Law yn llaw â hyn, mae gofynion cyfreithiol mewn lle ar i sefydliadau cyhoeddus sicrhau bod deunyddiau dysgu yn hygyrch. Yn ystod y cyfnod dan sylw, gwnaethpwyd gwaith arwyddocaol, o dan nawdd Llywodraeth Cymru, gan yr Uned Technolegau Iaith yng Nghanolfan Bedwyr yn datblygu Trawsgrifiwr. Mae'r Trawsgrifiwr wedi'i ddatblygu gyda golwg ar sicrhau bod modd cynhyrchu is-deitlau Cymraeg ar gyfer fideos a chlipiau sain trwy ddulliau awtomatig. Er nad yw'r gwaith hwn wedi'i gwblhau eto, mae'n gam sylweddol tuag at sicrhau bod y broses o baratoi deunyddiau dysgu hygyrch yr un mor hwylus yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd y gwaith hwn o gymorth i staff a myfyrwyr ledled Cymru.

- Yn ystod mis Medi 2020, roedd gweithgareddau *Croeso 2020* yn mynd rhagddynt yn y Brifysgol. Roedd *Croeso 2020* yn cymryd lle'r Wythnos Groeso draddodiadol ac roedd yr holl wybodaeth ar-lein a'r holl weithgareddau yn rhai rhithiol. O safbwynt y Gymraeg, cynhaliwyd sesiynau byw ar-lein yn tynnu sylw at adnoddau a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn ogystal â sesiynau yn rhoi blas o'r Gymraeg. Datblygwyd deunyddiau newydd ar-lein yn hyrwyddo'r Gymraeg a hynny ar gyfer siaradwyr rhugl a myfyrwyr oedd yn dysgu Cymraeg neu heb ddim gallu yn y Gymraeg. Roedd yr adnoddau yma'n cynnwys:
  - Gwybodaeth am y cyd-destun astudio dwyieithog, yn cynnwys fideos gan fyfyrwyr a darlithwyr: https://www.bangor.ac.uk/welcome2020/bilingual.php.cy
  - Gwybodaeth am gefnogaeth a'r cyfleoedd sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ym Mangor, yn cynnwys fideos am gymdeithasau myfyrwyr: https://www.bangor.ac.uk/welcome2020/y-gymraeg.php.cy
  - Fideo yn rhoi hanes y Gymraeg a'r modd y mae'r iaith yn cael ei defnyddio yn y Brifysgol: https://www.bangor.ac.uk/welcome2020/y-gymraeg.php.en
  - Fideo yn cyflwyno geiriau ac ymadroddion syml: https://www.bangor.ac.uk/welcome2020/y-gymraeg.php.en
  - Cymorth Cymraeg – Deunyddiau i siaradwyr rhugl a dysgwyr: https://www.bangor.ac.uk/cymorthcymraeg/index.php.cy

- Bu Diwrnod Hawliau'r Comisiynydd ar 7 Rhagfyr 2020 yn gyfle eto i bwysleisio i fyfyrwyr y cyfleoedd sydd iddynt ddefnyddio'r Gymraeg ym Mangor. Yn 2020, penderfynwyd canolbwyntio ar hawliau myfyrwyr i dderbyn cymorth drwy gyfrwng y Gymraeg o fewn y Brifysgol. Crëwyd proffiliau staff er mwyn amlygu'r ffaith fod aelodau o staff sy'n medru'r Gymraeg ar gael i gynorthwyo myfyrwyr mewn adrannau ar draws y Brifysgol, ac nid dim ond o fewn yr Ysgolion Academaidd.

- Yn ogystal, crëwyd fideo yn amlygu'r gwasanaethau sydd ar gael i helpu myfyrwyr drwy gyfrwng y Gymraeg gyda materion iechyd meddwl: Cymorth Iechyd Meddwl cyfrwng Cymraeg - YouTube. O dan nawdd HEFCW, parhawyd â'r gwaith o ddatblygu gwefan ac arni ystod eang o adnoddau iechyd meddwl yn Gymraeg ar gyfer myfyrwyr ledled Cymru.

- Wrth sicrhau bod gweithdrefnau Covid yn eu lle ar gyfer dechrau'r flwyddyn academaidd, datblygwyd ystod o arwyddion, deunyddiau ac adnoddau yn y Gymraeg i gynorthwyo myfyrwyr, yn cynnwys: Fideo yn egluro trefniadau iechyd a diogelwch; ap i gofrestru canlyniadau prawf positif; ap i gofrestru presenoldeb a chynorthwyo gydag adnabod cysylltiadau agos. Gweler, er enghraifft, https://www.bangor.ac.uk/cy/astudio/cwestiynau-covid19.

- Drwy gydol y flwyddyn academaidd, roedd materion myfyrwyr a newyddion myfyrwyr yn cael eu cyfathrebu i'r holl fyfyrwyr drwy'r Bwletin Myfyrwyr oedd ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

- Yn ogystal â'r datblygiadau uchod o ran gwasanaethau, bu staff academaidd hefyd wrth gwrs yn paratoi deunyddiau dysgu cyfrwng Cymraeg a hynny gan ymateb yn benodol i'r angen am gynnwys digidol mewn ystod o feysydd yn y Gymraeg. Un enghraifft o hyn yw'r Prosiect Adnoddau Digidol dan nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Datblygodd staff Bangor unedau gwaith ym maes Cymdeithaseg o dan y cynllun hwn:
https://www.porth.ac.uk/cy/collection/gwyddorau-cymdeithas-theori-gymdeithasegol
Fel yn achos y Trawsgrifiwr y cyfeirir ato uchod, bydd y gwaith hwn yn cefnogi gwaith addysgu a dysgu ledled Cymru. Mae'r gydberthynas hon rhwng darpariaeth academaidd cyfrwng Cymraeg a gwasanaethau eang ac ystyrlon yn y Gymraeg i'n myfyrwyr yn allweddol i weledigaeth Prifysgol Bangor a'i nod o gefnogi ethos drwyadl ddwyieithog.

## CAMAU DATBLYGU

Mae'r Brifysgol yn awyddus i ddatblygu ei systemau dashfwrdd o fewn *Power BI* er mwyn monitro niferoedd siaradwyr Cymraeg ymhlith myfyrwyr a hefyd eu hymwneud â'r ddarpariaeth academaidd trwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd y Brifysgol yn datblygu sesiynau hyfforddi ar gyflwyno gwasanaethau yn Gymraeg er mwyn sicrhau bod staff mewn swyddogaethau newydd yn ymwybodol o'u dyletswyddau.

## SAFONAU LLUNIO POLISI

Mae Prifysgol Bangor yn hyderus ei bod wedi perfformio'n dda wrth gydymffurfio â'r Safonau Llunio Polisi. Mae strwythurau cadarn yn eu lle ar gyfer sicrhau bod materion ynglŷn â'r Gymraeg yn cael ystyriaeth wrth i bolisïau a mentrau newydd gael eu datblygu. Y mae unigolion a chanddynt gyfrifoldeb dros y Gymraeg yn eistedd ar bwyllgorau allweddol y Brifysgol lle mae penderfyniadau polisi perthnasol yn cael eu trafod (e.e. Pwyllgor Gweithredu'r Brifysgol, Grŵp Strategaeth Addysgu a Dysgu, Grŵp Tasg Cydymffurfio). Ymhellach, mae'r Brifysgol wedi mynd ati yn y cyfnod dan sylw i gryfhau cynrychiolaeth o ran y Gymraeg ar bwyllgorau ar lefel Colegau academaidd.

Yn ystod 2020-21, datblygodd y Brifysgol strategaeth newydd *Strategaeth 2030 – Byd Cynaliadwy i Genedlaethau'r Dyfodol*. Mae'r Gymraeg yn un o 'bedair colofn' y strategaeth hon (ynghyd â 'Rhagoriaeth Ymchwil', 'Profiadau Dysgu Trawsnewidiol' a 'Profiad Rhagorol i Fyfyrwyr'). Ymhellach, penodwyd Dirprwy Is-Ganghellor Cynorthwyol ym maes y Gymraeg i ddatblygu is-strategaeth benodol ar gyfer y Gymraeg.

Rhwng Medi 2020 a Gorffennaf 2021 roedd proses o ail-strwythuro yn mynd rhagddi yn y Brifysgol. Yn ystod y cyfnod yr oedd y Brifysgol yn mynd drwy'r broses hon, cyhoeddodd y Comisiynydd ei Ddogfen gyngor arferion da ar y Safonau Llunio Polisi. Wrth ymgynghori, sicrhaodd y Brifysgol fod cwestiynau penodol ynglŷn â'r Gymraeg yn rhan o'r broses. Yn ogystal â defnyddio dogfennau asesu effaith ar gyfer y Gymraeg, sefydlwyd grŵp arbenigol i asesu effaith penderfyniadau ail-strwythuro ar y Gymraeg.

Dysgwyd llawer am y broses asesu effaith wrth gynnal yr ymarfer hwn. Teg dweud bod y broses o asesu effaith ar y Gymraeg ar draws ei holl bolisïau yn faes newydd i'r Brifysgol ac mae gwaith eto i'w wneud yn sicrhau fod hyn yn digwydd yn systematig ym mhob maes. Mae camau cadarnhaol wedi'u cymryd eisoes, fodd bynnag, wrth i ffurflen benodol ar gyfer Asesu Effaith ar y Gymraeg gael ei mabwysiadu a dechrau cael ei gosod ar y wefan gyda'r asesiad effaith cydraddoldeb wrth i bolisïau a rheoliadau gael eu diweddaru a'u datblygu.

## CAMAU DATBLYGU

Bydd y Brifysgol yn parhau i sicrhau fod ein polisïau a'n datblygiadau newydd yn gwarchod egwyddorion craidd y Safonau – sicrhau cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Byddwn yn edrych ar ffyrdd o ddatblygu ein gwaith ym maes asesu effaith a'r Gymraeg ymhellach.

## SAFONAU GWEITHREDU

Mae Prifysgol Bangor yn hyderus ei bod wedi perfformio'n dda wrth gydymffurfio â'r Safonau Gweithredu. Mae hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith wedi bod yn flaenoriaeth i Brifysgol Bangor ers sawl blwyddyn.

Yn y cyfnod dan sylw, parhaodd y Brifysgol i sicrhau bod modd i staff barhau i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith a derbyn negeseuon clir fod y Brifysgol yn annog hynny. Tynnir sylw at rai datblygiadau perthnasol isod:

- Datblygwyd *Canllaw i Reolwyr*. Mae'r canllaw yn cyfeirio at Bolisi Iaith y Brifysgol a chyfrifoldeb rheolwyr i annog y defnydd o'r Gymraeg ymhlith staff.

- Bu 2020/21 yn flwyddyn brysur o safbwynt cefnogi staff i ddysgu Cymraeg a'u hannog i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith. Roedd dulliau dysgu wedi newid yn llwyr erbyn hyn a phob agwedd ar ddysgu yn digwydd ar-lein. Roedd yn galonogol gweld fod nifer dda o staff wedi parhau i ddysgu Cymraeg a rhai wedi dewis sefyll arholiadau ac asesiadau. Cynhaliwyd nifer fawr o diwtorialau y tu hwnt i wersi er mwyn cefnogi hyn a rhoi staff yn y sefyllfa gryfaf bosib i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith.

- Gan fod llawer llai o gyfleoedd i staff sy'n dysgu Cymraeg ddefnyddio'r iaith yn anffurfiol, sicrhawyd fod y cynllun sgwrsio yn parhau er mwyn rhoi cyfleoedd siarad y tu allan i wersi. Ar y cynllun, mae siaradwyr rhugl yn trefnu sesiynau sgwrs o tua 20 munud yn rheolaidd efo staff sy'n dysgu Cymraeg. Mae'r sesiynau wedi bod yn boblogaidd gyda dysgwyr a staff rhugl.

- Parhaodd tîm cyfieithu'r Brifysgol i arloesi o ran eu defnydd o gyfieithu ar y pryd mewn sefyllfaoedd rhithiol gan baratoi hefyd mewn dull rhagweithiol ar gyfer darparu CAP mewn cyfarfodydd hybrid.

- O dan nawdd Llywodraeth Cymru, cymerwyd camau i ddatblygu'r rhaglen ARFer ymhellach fel ei bod yn addas ar gyfer cyd-destun gweithio hybrid, gan ragweld mai dyma fydd realiti byd gwaith i lawer yn y blynyddoedd i ddod.

## SGILIAU CYMRAEG STAFF

Mae'r tablau isod yn amlinellu sgiliau Cymraeg staff y Brifysgol ar 31 Gorffennaf 2021 yn seiliedig ar gategorïau swyddi:

**HOLL STAFF Y BRIFYSGOL: SGILIAU SIARAD CYMRAEG**

| | Siarad Cymraeg | Ddim yn Siarad Cymraeg | Siarad Ychydig o Gymraeg | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Academaidd** | **206** | **255** | **179** | **640** |
| | **32%** | **40%** | **28%** | **100%** |
| **Academaidd Cysylltiedig** | **142** | **38** | **101** | **281** |
| | **51%** | **14%** | **36%** | **100%** |
| **Clerigol** | **256** | **48** | **88** | **392** |
| | **65%** | **12%** | **22%** | **100%** |
| **Maniwal** | **136** | **62** | **54** | **252** |
| | **54%** | **25%** | **21%** | **100%** |
| **Technegol** | **46** | **17** | **34** | **97** |
| | **47%** | **18%** | **35%** | **100%** |
| **Ymchwil** | **39** | **127** | **68** | **234** |
| | **17%** | **54%** | **29%** | **100%** |
| **Cyfanswm** | **825** | **547** | **524** | **1896** |
| | **44%** | **29%** | **28%** | **100%** |

**HOLL STAFF Y BRIFYSGOL: SGILIAU DARLLEN CYMRAEG**

| | Darllen Cymraeg | Ddim yn Darllen Cymraeg | Darllen Ychydig o Gymraeg | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Academaidd** | **204** | **278** | **158** | **640** |
| | **32%** | **43%** | **25%** | **100%** |
| **Academaidd Cysylltiedig** | **139** | **43** | **96** | **278** |
| | **50%** | **15%** | **35%** | **100%** |
| **Clerigol** | **256** | **57** | **83** | **396** |
| | **65%** | **14%** | **21%** | **100%** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Maniwal** | **130** | **64** | **55** | **249** |
| | **52%** | **26%** | **22%** | **100%** |
| **Technegol** | **45** | **23** | **30** | **98** |
| | **46%** | **23%** | **31%** | **100%** |
| **Ymchwil** | **41** | **133** | **63** | **237** |
| | **17%** | **56%** | **27%** | **100%** |
| **Cyfanswm** | **815** | **598** | **485** | **1898** |
| | **43%** | **32%** | **26%** | **100%** |

**HOLL STAFF Y BRIFYSGOL: SGILIAU YSGRIFENNU CYMRAEG**

| | **Ysgrifennu Cymraeg** | **Ddim yn ysgrifennu Cymraeg** | **Ysgrifennu ychydig o Gymraeg** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| **Academaidd** | **192** | **307** | **132** | **631** |
| | **30%** | **49%** | **21%** | **100%** |
| **Academaidd Cysylltiedig** | **127** | **70** | **82** | **279** |
| | **46%** | **25%** | **29%** | **100%** |
| **Clerigol** | **236** | **68** | **88** | **392** |
| | **60%** | **17%** | **22%** | **100%** |
| **Maniwal** | **115** | **81** | **49** | **245** |
| | **47%** | **33%** | **20%** | **100%** |
| **Technegol** | **45** | **30** | **22** | **97** |
| | **46%** | **31%** | **23%** | **100%** |
| **Ymchwil** | **38** | **146** | **50** | **234** |
| | **16%** | **62%** | **21%** | **100%** |
| **Cyfanswm** | **753** | **702** | **423** | **1878** |
| | **40%** | **37%** | **23%** | **100%** |

## CYRSIAU DATBLYGU DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

Mae tîm datblygu staff y Brifysgol yn dîm dwyieithog ac felly yn gallu cynnig pob cwrs a ddatblygir yn fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg; felly hefyd y tîm Iechyd a Diogelwch a'r tîm technoleg gwybodaeth. Mae'n anodd cofnodi'r union niferoedd / canrannau o staff a dderbyniodd hyfforddiant proffesiynol drwy'r Gymraeg gan fod llawer o'r hyfforddiant hwnnw'n cael ei gynnig yn ddwyieithog.

Yn ystod y cyfnod 2021/21 mae rhan helaeth o staff y Brifysgol wedi parhau i weithio o adref ac felly mae cyfleoedd datblygu staff wedi cael ei ddarparu ar-lein. Lansiwyd *Rhaglen Rheoli Bangor* sy'n gofyn i reolwyr gwblhau 12 gweithdy ac ymuno mewn grwp dysgu gweithredol. Mae modd i staff ddewis mynychu gweithdai cyfrwng Cymraeg ac mae grŵp dysgu gweithredol cyfrwng Cymraeg wedi'i sefydlu hefyd. Mae hyn wedi bod yn ffordd wych o ddod â rheolwyr at ei gilydd i drafod yr heriau o reoli staff, a gwneud hynny drwy'r Gymraeg. Yn ogystal mae pob cyfranogwr yn cael dewis cwblhau eu proffil Myers Briggs, sef prawf seicometric yn edrych ar arddulliau gweithio a chyfathrebu. Mae modd i staff y Brifysgol sy'n ymgymryd â'r prawf dderbyn adborth y prawf yn y Gymraeg.

Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Lles ar gyfer staff a myfyrwyr, mae'r Brifysgol wedi buddsoddi mewn hyfforddiant iechyd meddwl i garfan o reolwyr. Hyfforddiant *i-act* yw'r rhaglen hon ac yn ystod y cyfnod adrodd derbyniodd 100 o reolwyr hyfforddiant gan gwmni allanol sy'n arbenigo yn y maes. Bydd yr hyfforddiant yn rhoi hyder i reolwyr drafod materion lles gyda staff ac felly roedd sicrhau bod rheolwyr dwyieithog yn derbyn hyfforddiant yn bwysig o ystyried natur rhai o'r trafodaethau posib. Derbyniodd 24 rheolwr yr hyfforddiant hwn drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae cynlluniau i hyfforddi hyfforddwyr mewnol er mwyn rhaeadru'r hyfforddiant hwn ymhellach o fewn y gweithle. Roedd sicrhau bod staff dwyieithog yn gymwys i hyfforddi fel hyfforddwyr mewnol yn rhan allweddol o'r strategaeth i sicrhau bod modd cynnig gweithdai cyfrwng Cymraeg i staff. Yn ogystal mae buddsoddiad wedi bod mewn hyfforddi Cymhellwyr Lles ac maent wedi derbyn hyfforddiant arbenigol gan gorff proffesiynol cydnabyddedig ym Mhrydain. Bydd y cymhellwyr lles ar gael i gynnig sgyrsiau 1:1 gyda staff ar faterion yn ymwneud â llesiant. Aethpwyd ati i recriwtio staff dwyieithog i fynychu'r hyfforddiant. Bu i 21 gwblhau'r hyfforddiant ac o'r rheiny mae 8 yn rhugl yn y Gymraeg a 2 arall yn ddysgwyr da.

## SWYDDI GWAG A GOFYNION IAITH

| | **Cymraeg yn Hanfodol** | **Cymraeg yn Hanfodol neu Barodrwydd i Ddysgu** | **Cymraeg yn Ddymunol** | **Dim gofyn iaith** |
|---|---|---|---|---|
| Academaidd | 9 | | 46 | 8 |
| Academaidd Gysylltiedig | 3 | | 12 | |
| Clerigol | 25 | 6 | 25 | 1 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Maniwal | 5 | | 7 | |
| Technegol | 1 | | 9 | |
| Ymchwil | 6 | | 12 | 31 |
| **CYFANSWM** | **49** | **6** | **111** | **40** |

## CAMAU DATBLYGU

Fel y nodwyd eisoes, mae canran y staff sy'n nodi eu bod yn siarad Cymraeg wedi gostwng yn 20/21. Mae'r Brifysgol yn ymwybodol fod angen monitro hyn a byddwn yn edrych ar ein prosesau recriwtio. Ymhellach, bydd cwrs Ymwybyddiaeth Iaith newydd yn cael ei ddatblygu ynghyd â ffocws ar ddatblygu hyfforddiant i reolwyr. Bydd y cyrsiau hyn yn canolbwyntio ar y gofynion a'r cyfrifoldebau penodol sy'n codi yn sgil rheoli mewn cyd-destun dwyieithog.

## CWYNION

Ni dderbyniwyd cwynion swyddogol yn y cyfnod dan sylw. Fodd bynnag, mae'r Brifysgol yn ymwybodol fod gan staff bryderon am y defnydd o'r Gymraeg mewn rhai cyd-destunau gweithio o bell (e.e. dyddiau agored). Cafodd y sefyllfa ei monitro drwy'r flwyddyn a chyflwynwyd datrysiadau pan oedd hynny'n bosib. Ymatebodd y Brifysgol i ymchwil Comisiynydd y Gymraeg yn y maes hwn.

## CASGLIADAU

Bu 20/21 yn flwyddyn heriol i'r Brifysgol fel i sefydliadau eraill yn sgil Covid-19. Yn ogystal bu i'r sefydliad wynebu cyfnod o ail-strwythuro. Roedd 20/21 hefyd, fodd bynnag, yn gyfnod o edrych ymlaen i'r Brifysgol yn sgil cyhoeddi ei strategaeth gorfforaethol newydd - *Strategaeth 2030 – Byd Cynaliadwy i Genedlaethau'r Dyfodol*.

Cymerwyd sawl cam rhagweithiol yn ystod y flwyddyn i hyrwyddo'r Gymraeg ac i sicrhau cyfleoedd i'w defnyddio. Bwriad y Brifysgol yw adeiladu ar hynny yn 21/22, a hynny gobeithio, mewn cyd-destun ehangach a fydd yn llai tymhestlog. Yn 21/22 bydd Strategaeth y Gymraeg newydd y Brifysgol yn cael ei rhoi ar waith a chyfle i sicrhau cyfleoedd i'n myfyrwyr, staff a rhanddeiliaid ehangach ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus yn y 'normal newydd'.

Os hoffech dderbyn gwybodaeth bellach am yr adroddiad hwn, cysylltwch â:

Dr Lowri Angharad Hughes
Pennaeth Polisi a Datblygu
Canolfan Bedwyr
Prifysgol Bangor
l.a.hughes@bangor.ac.uk
(01248) 383293